

Canllaw Ffynhonnell Rhif 12

COFNODION Y CRWNER

BETH YW COFNODION Y CRWNER?

Crëwyd swyddfa'r crwner yn 1194, pan oedd crwneriaid yn cael eu penodi i ymchwilio i achosion o farwolaethau sydyn neu farwolaethau heb esboniad, ac i ymgymryd â swyddogaethau eraill yn ymwneud ag atafaelu eiddo.¹ Mae rôl crwner wedi datblygu dros y canrifoedd ac mae bellach yn ymwneud ag achosion o farwolaeth sydyn neu amheus yn bennaf. Mae'r cofnodion yn cynnwys Adroddiadau Marwolaethau Sydyn a Chwestau Post-mortem yn bennaf. Byddai'r cofrestrydd lleol yn rhoi'r Adroddiad Marwolaeth Sydyn i'r crwner os nad oes rheswm i gredu bod y farwolaeth wedi digwydd o ganlyniad i anesthetig, erthyliad, anaf diwydiannol neu afiechyd, esgeulustod, gwenwyn, damwain neu drais, neu a oedd fel arall yn sydyn, heb esboniad neu wedi digwydd dan amgylchiadau amheus neu mewn carchar. Os oedd ymholiadau pellach wedi dangos bod y farwolaeth wedi digwydd yn naturiol, byddai'r crwner yn hysbysu'r cofrestrydd a byddai'r unigolyn yn cael ei gladdu, fel arall, byddai cwest post-mortem yn cael ei gynnal. Ar ôl 1969, mae'r ffeiliau wedi'u rhannu'n ddau gategori: Adroddiadau Marwolaethau Sydyn a Chwestau Post-mortem. Ceir ffeiliau achosion marwolaeth sy'n disgyn y tu allan i'r prif gategoriâu hyn hefyd.

Un crwner sydd gan Sir y Fflint ac roedd ei awdurdodaeth yn cwmpasu'r sir gyfan yn wreiddiol. Ers 1874 (o dan ddeddf 1844), mae Maelor yn cael ei chynnwys o dan awdurdodaeth crwner Swydd Amwythig.

Mae ymchwiliadau'r crwner a gedwir gan Archifdy Sir y Fflint, a'u papurau cysylltiedig, yn gofnodion cyhoeddus dynodedig sy'n cael eu cadw o dan Adran 4 (1) o Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Yn anffodus, mae nifer o'r cofnodion cynnar heb oroesi ac mae'r hyn sydd gennym o'r cyfnod cyn 1917 yn brin iawn. Mae gennym ambell i ffeil gynnar, ar gyfer blynyddoedd 1818-1819 ac 1848-1849, a ddargafuwyd ymhlith cofnodion y sir. Mae gweddill y cofnodion wedi cael eu hadnau gan Grwner E.M.

BETH ALLAF EI DDARGANFOD O GOFNODION CRWNER?

Fel arfer bydd adroddiad marwolaeth sydyn neu gwest post-mortem yn cynnwys papurau sy'n nodi enw llawn yr ymadawedig, ei oedran, ei gyfeiriad a'i swydd (os yw hynny'n briodol). Fel arfer, nodir amgylchiadau'r farwolaeth, gan gynnwys lle a phryd y digwyddodd; p'un a oedd yr ymadawedig yn dioddef o unrhyw salwch cyn marw; p'un a oedd unrhyw un yn cael ei gyhuddo o esgleulustod neu'n cael ei feio; a'r rheswm tybiedig dros y farwolaeth. Mae'n bosibl hefyd y byddai'r crwner yn rhoi sylwadau pellach ynglŷn â'i ddarganfyddiadau. Mae nifer o ffeiliau'n cynnwys llawer o fanylion am hanes cefndirol yr ymadawedig, gan gynnwys datganiadau ysgrifenedig gan dystion (teulu a ffrindiau fel arfer). Mae rhai ffeiliau'n fanwl iawn, tra bod eraill (yn arbennig y ffeiliau cynharaf) yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol yn unig.

¹ Hey, D. (gol.) The Oxford Companion to Local and Family History. Oxford. 1996. tud.111.

SUT ALLAF DDEFNYDDIO COFNODION CRWNER YN ARCHIFDY SIR Y FFLINT?

Mae rhestrau cronoloegol o'r holl gofnodion crwner a gedwir gan Archifdy Sir y Fflint **hyd at 1969** ar silffoedd agored yr ystafell ymchwil. Ar gyfer achosion ar ôl 1969, bydd angen i chi ofyn i'r staff wirio a ydym yn cadw'r ffeiliau penodol. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen enw'r unigolyn dan sylw a syniad o ddyddiad y farwolaeth / cwest.

Mae cofnodion cwestiau crwneriaid yn **gyfyngedig i'r cyhoedd am 75 mlynedd**. Os yw'r cofnodion y mae gennych ddiddordeb ynddynt yn hŷn na 75 mlynedd, cyn belled â bo'r ffeil yma gennym yn Archifdy Sir y Fflint, gallwch edrych arnynt yn yr ystafell ymchwil. Os yw'r cofnodion yn llai na 75 mlwydd oed, rhai cyfyngiadau yn berthnasol. Mae Crwner wedi rhoi caniatad i aelodau teulu cael mynediad at gofnodion cyn 1980au. Felly, os ydych yn berthyn i'r ymadawedig a'r cofnodion cyn 1980au, gallwch cael mynediad heb wneud cais i'r Crwner am ganiatad. Mae angen neilltuo lle yn yr ystafell ymchwil yn y ffordd arferol yn ogystal â dangos dogfen adnabod er mwyn cael tocyn CARN, y bydd rhaid profi perthynas i'r ymadawedig.

Os nad ydych'n berthyn i'r ymadawedig neu os ydy'r cofnodion yn 1980 neu'n hwyrach, bydd staff Archifdy Sir y Fflint yn gofyn pam ydych eisiau mynediad i'r cofnodion er mwyn rhoi cais i'r Crwner. Ar ôl i'r Crwner ymateb i'r cais, y byddwch chi'n cael gwybod os ydych wedi cael caniatad a bydd gwahoddiad i chi drefnu apwyntiad i weld y cofnodion.

Bydd angen i chi neilltuo darllynydd microfilm i edrych ar y cofnodion hyn.

GWYBODAETH BELLACH:

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, neu i neilltuo lle yn yr ystafell ymchwil, cysylltwch â ni yn: Yr Hen Reithoridy, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3NR, Ffôn. 01244 532364 neu anfonwch e-bost at: archives@flintshire.gov.uk